



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 20 FED IONAWR, 2021** am **5.00 PM.**

AGENDA

Tudalennau

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020 yn rhai cywir.

5 - 16

LLYWODRAETHU AGORED:

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

17 - 22

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU

[Rhaglen Waith y Cyngor 2020/2021](#)

6. DIWEDDARIAD MEWN PERTHYNAS Â'R CORONAFEIRWS YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn datganiad sefyllfa mewn perthynas â'r Coronafeirws yn y Fwrdeistref Sirol.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

7. CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR 2021/22 - SETLIAD LLYWODRAETH LEOL ARFAETHEDIG

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

23 - 34

8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR

Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol.

35 - 44

9. PENDERFYNIADAU BRYD O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

45 - 48

10. RHYBUDD O GYNNIG

A. Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau: Y Cynghorwyr P. Jarman, H. Fychan, S. Rees-Owen, M. Weaver, K. Morgan, D. Grehan, E. Griffiths, J. Williams, A. Cox, J. Davies, J. Cullwick, G. Davies, E. Webster, S. Evans, A. Chapman, E. Stephens a L. Jones,

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

1. Yn cydnabod y ffaith drallodus bod 30% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi ac eto dim ond 13% sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod yr 17% o blant sy'n weddill yn byw mewn cartrefi â chyflog isel, sy'n mynd â nhw ychydig dros y meini prawf presennol ar gyfer hawlio prydau ysgol am ddim.
2. Yn nodi bod Lloegr a'r Alban yn darparu prydau ysgol am ddim cynhwysol i ddisgyblion yn yr adran fabanod, gyda holl ddisgyblion y dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn gymwys. Dydy hyn ddim yn wir yng Nghymru.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i bennu cost a chyllidebu'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru ond sydd wedi'u heithrio rhag hawlio prydau o dan y meini prawf cymhwysedd presennol, a rhoi hyn ar waith.
4. Yn cytuno na ddylai unrhyw blentyn fod yn llwglyd ac y dylai hyn fod yn gam tuag at y nod o gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim Cynhwysol i bob plentyn yng Nghymru fel y mae grwpiau amrywiol yng Nghymru yn galw amdano, gan gynnwys Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a Chynulliad y Bobl

11. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor